

Pennu Amcanion Llesiant – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4531A2024

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr 11

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau i bennu amcanion llesiant yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein hadolygiad yn cael ei gynnal i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar yr Ymddiriedolaeth. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi eu bwriadu i gynyddu i'r eithaf ei chyfraniad at gyrraedd pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol yn y Ddeddf¹. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.
- 3 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus² wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant.
- 4 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. I gyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal³.
- 5 Wrth ddylunio ein dull, fe wnaethom ystyried beth allem yn rhesymol ei ddisgwyl gan yr Ymddiriedolaeth ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus fod yn gyfarwydd bellach â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a bod yn ceisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn derbyn bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth, yn dal i ddatblygu eu profiad o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyried sut yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi ei gwersi ar waith a sut y gall wella yn y dyfodol.
- 6 Fe wnaethom ni ein gwaith rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2024. Nod yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn ar y cyfan: 'i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant newydd?'. Fe wnaethom hyn trwy chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

¹ Y saith nod llesiant cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

² Ar adeg ein gwaith ni, roedd 56 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

³ Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- bod trefniadau priodol ar waith i bennu amcanion llesiant a danategir gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
- bod gwybodaeth briodol wedi cael ei hystyried wrth bennu'r amcanion llesiant cyfredol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; a hefyd
- bod trefniadau priodol ar waith i fonitro cynnydd a gwella sut y mae'r sefydliad yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Canfyddiadau allweddol

- 7 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth wedi diweddarau ei hamcanion llesiant ar ôl cyfnod hir heb adolygiad. Fodd bynnag, ni roddodd ystyriaeth lawn i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud hynny. Yn y dyfodol, mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfle i ymgorffori'r amcanion llesiant yn ei fframwaith cynllunio corfforaethol i sicrhau eu bod yn dod yn ganolog i lunio penderfyniadau ynglŷn â darparu gwasanaethau, trawsnewid gwasanaethau, dyrannu adnoddau, a phennu targedau arbedion.**

Y broses ar gyfer pennu ac adolygu amcanion llesiant

- 8 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth bennu ei hamcanion llesiant gyntaf yn 2015. Nid oedd terfyn amser yn gysylltiedig â hwy, ac felly roeddent yn benagored. O ystyried hynny, nid oedd hi'n glir pryd y byddai'r Ymddiriedolaeth yn pennu rhai newydd.
- 9 Fel rhan o adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei hamcanion llesiant ers iddynt gael eu pennu.
- 10 Cydnabu'r Ymddiriedolaeth fod angen iddi ystyried ei hamcanion llesiant o ystyried faint o amser oedd wedi mynd heibio ers eu pennu ac i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion statudol. Yn 2024, fe ddechreuodd yr Ymddiriedolaeth waith i bennu amcanion llesiant newydd. Roedd yr amseriad yn ateb y gofyniad ar gyrff cyhoeddus i ystyried eu hamcanion llesiant yn dilyn y newid i un neu fwy nag un o'r nodau llesiant cenedlaethol pan ddaeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym.
- 11 Cafodd y dull o bennu amcanion llesiant newydd ei gytuno gan Fwrdd Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth ac fe ddigwyddodd rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2024.
- 12 Ar ôl cwblhau'r gwaith, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ddiwygio geiriad dau o'r amcanion llesiant a oedd yn bodoli eisoes, gyda'r pump arall yn aros yn ddigyfnewid. Fe wnaeth y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Datblygu Strategol gymeradwyo'r amcanion llesiant, ac fe wnaeth y Bwrdd eu cymeradwyo ym mis Gorffennaf 2024. Caiff yr amcanion llesiant cyfredol eu nodi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: Amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth, 2024

Lleihau anghydraddoldebau iechyd, ei gwneud hi'n haws cael mynediad at y gofal iechyd gorau posibl pan fo'i angen a helpu i atal afiechyd trwy gydweithio gyda phobl Cymru mewn ffyrdd newydd

Gwella iechyd a llesiant ein staff a phobl ledled Cymru, trwy ymgeirio i ofalu am anghenion y person cyflawn

Creu swyddi newydd â lefelau sgiliau uchel yng Nghymru a denu buddsoddiad trwy gynyddu ein ffocws ar ymchwil, arloesi a modelau darparu newydd

Cyflawni datrysiadau beiddgar i'r heriau amgylcheddol a achosir gan ein gweithgareddau

Dangos parch tuag at dreftadaeth ddiwylliannol amrywiol Cymru fodern

Dod â chymunedau a chenedlaethau ynghyd, trwy eu cynnwys wrth gynllunio a darparu ein gwasanaethau

Cryfhau bri rhyngwladol yr Ymddiriedolaeth fel canolfan ragoriaeth ar gyfer addysgu, ymchwil ac arloesi technegol gan hefyd wneud cyfraniad parhaus at lesiant byd-eang

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

- 13 Mae amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth yn bodoli ar wahân i nodau strategol yr Ymddiriedolaeth ac yn wahanol iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion llesiant yn cynnwys unrhyw gamau na gweithredoedd tanategol sy'n darparu eglurder ynghylch sut y phryd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cyflawni, sut y bydd eu cyflawni'n cael ei fesur, a beth yw'r effaith a ddymunir.
- 14 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhydd i benderfynu sut y mae'n fframio ei hamcanion llesiant o fewn ei fframwaith cynllunio strategol. Fodd bynnag, mae canllawiau statudol ynghylch y Ddeddf⁴ yn annog cyrff cyhoeddus i'w pennu trwy eu proses cynllunio corfforaethol a'u hadlewyrchu mewn cynllun corfforaethol (neu ddogfen gyfatebol). Mae'n hanfodol bwysig nad yw gofynion y Ddeddf yn cael eu hystyried

⁴ Llywodraeth Cymru, [SPSF:1 Canllawiau Craidd Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol](#)

yn 'haen ychwanegol' ar ben gweithgarwch presennol fel bod datblygu cynaliadwy'n cael ei wreiddio a'i fod wedi'i fwriadu i lywio gweithgarwch ar draws y sefydliad a diffinio 'sut' y 'bydd yn gweithio'. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020⁵, sy'n ffynhonnell wybodaeth allweddol, yn nodi'r hyn y dylai cyrff cyhoeddus ei ystyried wrth bennu ac adolygu eu hamcanion llesiant.

- 15 Roedd y gwaith a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth yn 2022-23 i ddatblygu strategaeth sefydliadol deng mlynedd newydd (gyda strategaethau galluogi ategol) yn gyfle i wreiddio'r broses o gyflawni amcanion llesiant mewn cynlluniau corfforaethol, megis y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Fodd bynnag, ni fanteisiwyd ar y cyfle hwn.
- 16 Fodd bynnag, wrth adolygu ei hamcanion llesiant, fe sefydlodd yr Ymddiriedolaeth 'linell sylfaen' fewnol o gynnydd a wnaed i gyflawni'r amcanion llesiant a oedd yn bodoli eisoes. Roedd y llinell sylfaen yn mapio strategaethau, cynlluniau, gweithdrefnau a pholisïau perthnasol a oedd yn bodoli eisoes i bob un o'r amcanion llesiant. Mae'r ymarfer hwn yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer bwrw ymlaen â gwaith i allu gweld y cysylltiad rhwng amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth a'r blaenoriaethau busnes a nodir mewn cynlluniau corfforaethol.
- 17 Mae amcanion yr Ymddiriedolaeth yn strategol ac yn hirdymor o ran eu natur ac yn ymwneud â gwahanol agweddau ar lesiant. Fodd bynnag, bydd hi'n hollbwysig i'r Ymddiriedolaeth sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori'n effeithiol mewn trefniadau cynllunio craidd er mwyn iddi eu cyflawni. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, trwy fynd ati ymhellach i ddatblygu'r llinell sylfaen o ran cynnydd i gyfeirio at waith a nodir mewn cynlluniau eraill, megis y CTCI. Fel arall, ac yn unol â chanllawiau statudol ac arfer da, gallai'r Ymddiriedolaeth integreiddio ei hamcanion strategol a'i hamcanion llesiant. (**Argymhelliad 1**) Byddai hyn yn helpu i sicrhau mai'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol ar gyfer pob cam gweithredu a gymerir gan staff yn ddyddiol.
- 18 Bydd y cysylltiad hwn yn hollbwysig i wneud yn siŵr bod yr amcanion llesiant yn siapia penderfyniadau ynglŷn â darparu gwasanaethau, trawsnewid gwasanaethau, dyrannu adnoddau, a phennu targedau arbedion. Byddai hefyd yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i alinio adnoddau i gyflawni ei hamcanion llesiant ac ystyried y risgiau o ran adnoddau i'w cyflawni dros y tymor canolig a hir.

Sylfaen dystiolaeth

- 19 Roedd y gwaith i bennu amcanion llesiant newydd yn cynnwys dadansoddiadau SWOT⁶ a PESTLE⁷ a ddarparodd grynodedau lefel-uchel o ffactorau mewnol ac

⁵ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (Pennod 4: Amcanion Llesiant), May 2020

⁶ SWOT – Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, a Bygythiadau.

⁷ PESTLE – Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasegol, Technolegol, Cyfreithiol, ac Amgylcheddol.

allanol i oleuo anghenion, risgiau, a chyfleoedd a oedd yn berthnasol i bob amcan llesiant.

- 20 Datblygwyd arolwg i staff, defnyddwyr gwasanaethau a phartïon eraill â buddiant ei gwblhau. Roedd yn gofyn i ymatebwyr roi sgôr i bob un o'r amcanion llesiant cyfredol yn seiliedig ar ba mor bwysig ydoedd bod yr Ymddiriedolaeth yn eu cyflawni yn eu tyb hwy. Mae'n siomedig na chafodd yr Ymddiriedolaeth ond 49 o ymatebion gan staff a 18 o ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gyfradd ymateb isel yn awgrymu nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu cyrraedd amrywiaeth y boblogaeth ac y bydd hi'n bwysig iddi ystyried hyn wrth lunio gweithgarwch cynnwys yn y dyfodol. Pe bai'r Ymddiriedolaeth wedi gallu ysgogi sgwrs ynglŷn â'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd neu y gallai eu cymryd i gyflawni amcanion llesiant, gallai hyn fod wedi ysgogi lefel uwch o ymgysylltiad ac adborth mwy cyfoethog.
- 21 Mae canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth nodi'r gwelliannau a fydd yn cael eu gwneud i wasanaethau a'u cynaliadwyedd yn y dyfodol (o fewn yr adnoddau sydd ar gael) i leihau anghydraddoldebau ac i wella deilliannau iechyd y poblogaethau a wasanaethir. Mae ein hadroddiadau asesu strwythuredig blyneddol wedi nodi'n gyson bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio corfforaethol a chynllunio ariannol effeithiol. Mae trefniadau cynllunio'r Ymddiriedolaeth yn rhoi ystyriaeth dda i newidiadau sylweddol yn yr amgylchedd gweithredu; rhoddir ystyriaeth i'r galw am wasanaethau, pwysau o ran adnoddau, capasiti a gallu i drawsnewid gwasanaethau a'r angen i daro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor ac anghenion tymor hwy. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd drefniadau da i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chomisiynwyr allweddol ac mae'r gwaith cynllunio'n cael ei oleuo gan adborth defnyddwyr gwasanaethau. Tanategir ei Chynlluniau Tymor Canolig Integredig gan gynlluniau adnoddau sy'n nodi'n glir beth yw'r risgiau i gyflawni'r cynlluniau.
- 22 Felly, byddai mynd ati'n rhagweithiol i ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o drefniadau cynllunio corfforaethol presennol yn helpu i gryfhau'r trefniadau hynny ymhellach trwy sicrhau ystyriaeth i sut y gall yr Ymddiriedolaeth gyflawni effaith ar draws y nodau llesiant. Byddai hefyd yn helpu i ddangos sut y gwnaeth yr Ymddiriedolaeth:
- ddefnyddio data a chuddwybodaeth arall i ddeall anghenion yn awr ac yn y dyfodol;
 - cynnwys eraill wrth adolygu ei hamcanion llesiant (a chamau gweithredu ategol);
 - ystyried sut y mae ei hamcanion llesiant yn berthnasol i'w gilydd ac yn effeithio ar ei gilydd (gan gynnwys cyfleoedd i gyflawni manteision lluosog/leihau gwrthdaro i'r eithaf);
 - ystyried sut y mae ei hamcanion llesiant yn berthnasol i amcanion llesiant partneriaid ac yn effeithio arnynt;

- ystyried sut y mae ei hamcanion llesiant cyfredol yn dwyn manteision tymor hwy gan gadw cydbwysedd â diwallu anghenion byrdymor;
 - ystyried a yw'r amcanion llesiant wedi cael eu pennu dros ffrâm amser briodol; ac
 - ystyried sut y byddai'n darparu adnoddau i gyflawni ei hamcanion llesiant dros y tymor byr a chanolig, a'r risgiau o ran darparu adnoddau i'w cyflawni yn y tymor hwy.
- 23 Fe wnaeth gwaith mapio sylfaenol yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion llesiant a oedd yn bodoli eisoes (gweler **paragraff 16**) adnabod cyfres gychwynnol o ddangosyddion perfformiad posibl y gellid eu defnyddio i dracio cynnydd tuag at gyflawni amcanion llesiant.
- 24 Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn wir bod angen i'r Ymddiriedolaeth nodi mesurau perfformiad CAMPUS⁸ sy'n tanategu ei hamcanion llesiant. Er bod CTCL yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys mesurau perfformiad CAMPUS, maent wedi'u strwythuro ar sail blaenoriaethau'r CTCL ac nid yr amcanion llesiant. Felly, trwy ddynodi'r amcanion strategol fel yr amcanion llesiant, byddai hyn yn darparu cyswllt eglur ac a ddeallir yn dda rhwng y blaenoriaethau yn y CTCL a'r hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn amcanu at ei wneud i gyflawni ei hamcanion llesiant a pham, sut, a phryd.
- 25 Mae adnabod mesurau perfformiad i danategu'r amcanion llesiant yn hollbwysig i ategu adolygiad effeithiol o gynnydd tuag at eu cyflawni. Gall fod angen i fesurau pellach adlewyrchu'r agweddau ehangach ar rai o'r amcanion llesiant (megis y rhai sy'n ymwneud â llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol).
(Argymhelliad 2.1)
- 26 Ar ben hynny, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhoi disgrifiad clir o fesurau perfformiad strategol i fonitro'r deilliannau hirdymor y mae'n ceisio eu cyflawni. **(Argymhelliad 2.2)** Felly, byddai dynodi'r amcanion strategol fel yr amcanion llesiant yn gyfle i integreiddio ac alinio'r nodau tanategol.

Monitro

- 27 Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni ei hamcanion llesiant yn ei hadroddiad blynyddol ar berfformiad⁹. Hyd yma, mae'r adran ar gynnydd tuag at gyflawni amcanion llesiant wedi cynnwys crynodeb naratif byr o feysydd gweithgarwch ar draws yr Ymddiriedolaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn hytrach nag ar draws yr ystod o weithgareddau busnes a allai ddangos cynnydd. Ceir hefyd Adroddiad Cynaliadwyedd ar wahân sy'n adrodd ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu'r

⁸ Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol.

⁹ Mae'r adroddiad ar berfformiad yn darparu crynodeb o gyflawniadau, perfformiad a heriau allweddol ar draws yr ystod o weithgareddau'r Ymddiriedolaeth ac fe greffir arno yn y Pwyllgor Datblygu Strategol a'r Bwrdd.

Ymddiriedolaeth ar gyfer llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol. Mae adrodd yn fwy penodol yn cael ei wneud yn anodd gan y diffyg camau neu weithredoedd tanategol o ran yr hyn y bwriedir ei gyflawni ac erbyn pryd, a diffyg deilliannau bwriadedig a mesurau o gynnydd.

- 28 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi ddatblygu asesiad mwy holistaidd a chytbwys o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'i hamcanion llesiant, a hwnnw'n cael ei danategu gan fesurau perfformiad. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dynodi ei bwriad i adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni amcanion llesiant mewn adroddiad ar wahân yn y dyfodol. Byddai hyn yn helpu i roi mwy o amlygrwydd i'r asesiad o gynnydd ac yn rhoi mwy o amser a ffocws ar gyfer herio a chraffu. Fodd bynnag, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried a allai dynodi ei hamcanion strategol fel yr amcanion llesiant ddangos bod yr amcanion llesiant yn llywio gweithgarwch ar draws y sefydliad, gan barhau i wella adolygiadau blynyddol a symleiddio adroddiadau blynyddol.

Argymhellion

- 29 Mae **Arddangosyn 2** yn manylu ar yr argymhellion a gododd o'n gwaith. Caiff ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 1**.

Arddangosyn 2: argymhellion

Argymhellion	
A1	Dylai'r Ymddiriedolaeth integreiddio ei hamcanion llesiant fel rhan o'i threfniadau cynllunio craidd trwy, er enghraifft, ddynodi ei hamcanion strategol fel ei hamcanion llesiant i sicrhau cyswllt eglur rhwng cyflawni blaenoriaethau strategol a busnes a'r amcanion llesiant. (Paragraff 17)
A2	Fel rhan o'i threfniadau cynllunio craidd, dylai'r Ymddiriedolaeth nodi'r canlynol yn glir a'u monitro: 2.1. Mesurau perfformiad a chamau gwirio i ddangos cynnydd tuag at roi ei hamcanion llesiant a chamau gweithredu ategol ar waith. (Paragraff 25) 2.2. Mesurau perfformiad strategol i gyd-fynd â'i hamcanion llesiant sy'n cyfleu'r effaith hirdymor y mae'n ceisio ei chyflawni. (Paragraff 26)

Atodiad 1

Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Arddangosyn 3: ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1 Dylai'r Ymddiriedolaeth integreiddio ei hamcanion llesiant fel rhan o'i threfniadau cynllunio craidd trwy, er enghraifft, ddynodi ei hamcanion strategol fel ei hamcanion llesiant i sicrhau cyswllt eglur rhwng cyflawni blaenoriaethau strategol a busnes a'r amcanion llesiant.	Bydd yr Amcanion Llesiant yn cael eu gwreiddio o fewn y CTCl i sicrhau bod blaenoriaethau busnes yn cyd-fynd â'r uchelgeisiau.	Ebrill 2025	Cyfarwyddwr Trawsnewid (Interim)
A2 Fel rhan o'i threfniadau cynllunio craidd, dylai'r Ymddiriedolaeth nodi'r canlynol yn glir a'u monitro: A2.1 Mesurau perfformiad a chamau gwirio i ddangos cynnydd tuag at roi ei hamcanion llesiant a chamau gweithredu ategol ar waith. A2.2 Mesurau perfformiad strategol i gyd-fynd â'i hamcanion llesiant sy'n cyfleu'r effaith hirdymor y mae'n ceisio ei chyflawni.	Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu fframwaith cynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â'r Amcanion Llesiant. Bydd hwn yn adolygu metrigau cyfredol ac yn datblygu rhai newydd, lle tybir bod hynny'n angenrheidiol. Bydd y metrigau'n gyfuniad o fetrigau meintiol ac ansoddol a byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol.	Ebrill 2025	Cyfarwyddwr Trawsnewid (Interim)



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.